Cymru yn Fenis
Wales in Venice
Il Galles a Venezia

# Goruchwylwyr + Galwad Agored 2026

Cyfle datblygu rhyngwladol i ymarferwyr yn gynnar yn eu gyrfa ym maes y celfyddydau gweledol



# Cynnwys

Y Rhaglen ........ 3
Biennale Fenis ........ 5
Arddangosfa 2026 ........ 6
Y cyfle ........ 7
Beth fyddwch yn ei ennill? ........ 7
Cyfleoedd ........ 8
Prif gyfrifoldebau ........ 8
Pwy ddylai ymgeisio? ........ 9
Bod yn gymwys ........ 9
Y cymorth sydd ar gael ........ 12
Sut i ymgeisio ........ 13
Dyddiadau pwysig ........ 14
Cysylltu â ni ........ 14

## Hychyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, fformat hawdd i'w ddarllen, Braille, sain ac Arwyddeg. Ymdrechwn i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Os oes gennych unrhyw anghenion hygyrchedd a'ch bod yn ystyried ymgeisio, bydd modd inni eich helpu a chael eich cefnogi yn ystod y broses. Cysylltwch â ni yn grantiau@celf.cymru i drafod hyn.

Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

**Clawr**: Cleave 03 (Transmission: Visions of the Sleeping Poet), Cerith Wyn Evans, 2003. Llun: Polly Braden © yr artist.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Y Rhaglen

Mae'n gyfle datblygu proffesiynol gwych gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'n rhan allweddol o bresenoldeb Cymru yn yr Arddangosfa Gelf Ryngwladol rhif 61 – La Biennale di Venezia – sy'n digwydd 9 Mai-22 Tachwedd 2026.

Dyddiad cau ymgeisio
Dydd Mawrth 10 Rhagfyr 2025 hanner dydd

Mae'n gyfle â grant teithio i ymarferwyr yn gynnar yn eu gyrfa i:

- Cael profiad rhyngwladol.
- Magu rhwydweithiau proffesiynol.
- Datblygu eu hymarfer creadigol mewn cyd-destun byd-enwog.

Mae'n cyfle i:

- Artistiaid.
- Curaduron.
- Ysgrifenwyr.
- Cynhyrchwyr creadigol ym maes y celfyddydau gweledol.

Byddwch yn treulio mis o leiaf yn Fenis yn llysgennad i arddangosfa Cymru yn Fenis. Byddwch yn siarad ag ymwelwyr, cefnogi effaith yr arddangosfa a phrofi awyrgylch y Biennale.

Rydym yn chwilio am unigolion sydd ag ymrwymiad cryf i'n celfyddydau gweledol ac sy'n gallu siarad yn hyderus â chynulleidfa amrywiol a chynrychioli'r arddangosfa'n broffesiynol.

Byddwn yn cynnig 11 lle drwy'r alwad agored. Hefyd byddwn yn llenwi 7 lle ychwanegol drwy broses ar wahân gyda phartneriaid yn ein prifysgolion.

# Biennale Fenis

Dyma'r brif arddangosfa ryngwladol y byd ym maes celf gyfoes. Gan ddechrau ym 1895, mae nawr yn denu dros 700,000 o ymwelwyr, gan gynnwys 27,000 o guraduron, beirniaid, casglwyr ac artistiaid yn ystod y rhagolwg yn unig.

Mae Cymru yn cymryd rhan fel Digwyddiad Cyfochrog ers 2003. Y Biennale sy'n dewis digwyddiadau cyfochrog ac maent yn cael eu trefnu'n annibynnol y tu allan i'w brif leoliadau (Giardini ac Arsenale).

Y diweddar Koyo Kouoh sydd wedi pennu thema Biennale 2026 – "Yn y Cyweiriau Lleiaf". Mae'r Biennale rhif 61 yn credu bod artistiaid yn dehongli cyflwr ein cymdeithas a'n meddwl ac yn esgor ar bosibiliadau newydd.



Helen Sear, Caetera fumus, ....the Rest is Smoke (2015)

# Arddangosfa 2026

Yr artistiaid Manon Awst a Dylan Huw fydd yn arwain Cymru yn Fenis 2026.

Mae'n bartneriaeth rhwng y ddau artist ac Oriel Davies, y Drenewydd ac Oriel Myrddin, Caerfyrddin.




(Llun: Dewi Tannatt Lloyd)

Mae Manon yn byw yng Nghaernarfon ac yn creu cerfluniau a gweithiau safle-benodol. Mae ei gwaith yn cynnwys straeon ecolegol sy'n trafod y tyndra rhwng strwythurau dynol a rhai uwchddynol. Mae'n ymchwilio i sut mae deunyddiau'n trawsnewid lleoliadau a chymunedau.

Awdur, ymarferydd a chynullydd pobl yw Huw. Mae ei waith yn cynnwys prosiectau cyhoeddi a churadu, traethodau a beirniadaeth ym maes celf a chydweithio ag artistiaid. Mae'n defnyddio methodoleg sy'n rhyngddisgyblaethol, trawsieithyddol ac sy'n ymateb i safle. Mae'n ysgrifennu ac ymchwilio i'r cyfryngau seiliedig ar amser.

Mae'r cydweithio ar sail traddodiadau byw Cymru gan gynnwys cynghanedd a pherfformio safle-benodol. Mae'n gwahodd y gynulleidfa i rywle llawn egni artistig sy'n arddel cynaliadwyedd, cynhwysiant a democratiaeth ddiwylliannol.

Bydd yr arddangosfa yn cynnig profiad grymus a diddorol. Bydd yn trafod deunyddiau, iaith a gwytnwch ecolegol o safbwynt unigryw a fydd yn cyfrannu'n fawr at y Biennale.

## Y cyfle

Yn sgil yr alwad, byddwn yn dewis 11 unigolyn i ymuno â thîm Cymru yn Fenis 2026 i gael profiad rhyngwladol.

Bydd tîm o dri bob amser yn Fenis:

- 2 unigolyn drwy'r alwad agored.
- 1 myfyriwr drwy'r prifysgolion.

## Beth fyddwch yn ei ennill?

- Codi eich uchelgais drwy brofiad celfyddydol dihafal.
- Ehangu eich rhwydwaith a'ch cyfleoedd i gydweithio.
- Profiad byw o'r Biennale.
- Gwell sgiliau cyfathrebu a siarad â'r cyhoedd.
- Hyder wrth gynnal rhaglenni diwylliannol rhyngwladol.



James Richards, Migratory Motor Complex, gosodiad sain chwe sianel, Music for the gift, 2017 (Llun: Jamie Woodley)



Sean Edwards Undo Things Done,
golwg o'r gosodiad, 2019

## Cyfleoedd

### 8 wythnos Goruchwylwyr

Pobl sydd â hyd at 5 mlynedd o ymarfer proffesiynol a 3 mis neu ragor o brofiad o weithio mewn sefydliad celfyddydau gweledol Cymru (fel intern, gwirfoddolwr, staff blaen tŷ).

### 4 wythnos Goruchwylwyr

Pobl sydd â hyd at 5 mlynedd o ymarfer proffesiynol yn y celfyddydau gweledol.

## Prif gyfrifoldebau

- Agor a chau'r lleoliad (cyfrifoldeb bod ag allwedd).
- Monitro a gofalu am y gweithiau celf, gan adrodd am amodau'r lle a'r gweithiau.
- Cadw'r lle'n lân a chroesawgar.
- Siarad ag ymwelwyr am yr arddangosfa a chelfyddydau gweledol Cymru.
- Monitro niferoedd ymwelwyr.
- Cynnal teithiau o gwmpas yr arddangosfa.
- Cefnogi creu cynnwys ar-lein.

## Pwy ddylai ymgeisio?

**Pobl sydd:**

- a phrofiad o oruchwylio neu waith tebyg yn y celfyddydau gweledol.
- yn gyfathrebwyr hyderus yn y Gymraeg, y Saesneg neu ieithoedd eraill.
- yn wybodus am ein celf gyfoes.
- yn angerddol am hyrwyddo ein celfyddydau gweledol.
- yn gallu ymsbarduno ac sydd am fagu cysylltiadau rhyngwladol.

Dyma'r meini prawf y byddwn yn eu defnyddio i asesu eich cais.

Rydym yn annog ceisiadau gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli gan gynnwys mwyafrif ethnig byd-eang, pobl anabl, pobl LHDTCRhA+ a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau cymdeithasol neu economaidd. Nid oes angen addysg ffurfiol.

## Bod yn gymwys

**Rhaid i ymgeiswyr:**


- bod yn 18 oed neu'n hŷn.
- peidio â bod mewn addysg amser llawn mewn ysgol, coleg neu brifysgol.
- byw yng Nghymru neu arddangos ymrwymiad a gwybodaeth gref o ran sector ein celfyddydau gweledol.
- bod ar gael ar gyfer diwrnodau hyfforddi ym Mawrth 2026.
- gallu trefnu eu taith i Fenis.
- ymrwymo i aros am o leiaf 4 wythnos yn Fenis rhwng Mai a Thachwedd 2026 (nodwch pryd rydych ar gael ar y ffurflen gais).
- bod yn hyderus wrth siarad â'r gynulleidfa amrywiol a siarad yn gyhoeddus.
- bod â syniad ymchwil neu faes diddordeb cysylltiedig â'u hymarfer creadigol (i'w drafod yn y cyfweliad).

Mae modd i hen oruchwylwyr a chyn-fyfyrwyr o'r rhaglen ymgeisio hefyd ond byddwn yn rhoi blaenoriaeth i bobl newydd.

Roedd cymryd rhan yn y rhaglen oruchwylio'n brofiad trawsnewidiol. Ddegawd yn ôl yn Fenis roeddwn wedi cysylltu â grŵp rhyngwladol o bobl yn y maes ac ehangu fy nealltwriaeth o ymarfer artistig ac roedd wedi rhoi'r hyder imi ddechrau curadu.

**Louise Hobson, Cydgyfarwyddwr Gwaith a Rhaglen, Peak Cymru**

Tîm goruchwylio, 2015



Mae rhaglen goruchwylio Cymru yn Fenis yn fodd ichi rannu ymarfer ag artistiaid a gweithwyr celfyddydol o bob cwr o'r byd. Roedd y gymuned ryngwladol wedi troi'n gydweithwyr a chyfeillion imi rannu cyfleoedd a syniadau â nhw. Roeddwn wedi cael budd anferth o'r profiad.

**Bob Gelsthorpe, Cynhyrchydd Creadigol, Ffotogallery**

Tîm goruchwylio, 2017



Roedd cymryd rhan yng Nghymru yn Fenis pan oeddwn yn fyfyriwr celf yn brofiad bythgofiadwy. Rhoddodd arddangosfa Sean Edwards werthfawrogiad dyfnach imi o'i waith a'i daith artistig ond roedd hefyd yn gymorth imi ddatblygu sgiliau proffesiynol dwi'n eu defnyddio o hyd yn fy ymarfer heddiw.

Roedd bod yn rhan o bresenoldeb Cymru yno wedi creu cyfleoedd gwerthfawr o ran cyfnewid profiadau a chydweithio ag eraill. Roeddwn wedi magu cysylltiad gwaith agos â'r goruchwylwyr o bafiliynau'r Alban a Phrydain ac roedd rhai ohonynt wedi arwain at gysylltiadau parhaol ar draws y DU a chyfleoedd cydweithio proffesiynol.

**Melissa Rodrigues, Artist**

Tîm goruchwylio, 2019

Roedd gweithio fel goruchwyliwr yn un o brofiadau mwyaf trawsnewidiol fy mywyd. Roedd bod yn llysgennad dros gelf Gymreig ar lwyfan y byd, yn ogystal â chreu cysylltiadau gydol oes ag artistiaid eraill o Gymru a thu hwnt, yn gwneud y profiad yn unigryw ac yn anghofiadwy.

**Esyllt Lewis, Artist**

Tîm goruchwylio, 2019



# Y cymorth sydd ar gael

**Bydd y grant yn talu am:**

- Cost teithio yn ôl a throsglwyddo.
- Taliadau dyddiol.
- Cyfraniad tuag at deithio'n lleol a thocynnau i'r Biennale.

Byddwn yn cynnig llety ichi gyda phobl eraill yn Fenis.

## Cymorth hygyrchedd

Rhowch wybod inni am eich gofynion hygyrchedd a'r addasiadau rhesymol sydd eu hangen arnoch wrth ymgeisio drwy eu nodi yn y ffurflen gais. Os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer, byddwn yn rhoi rhagor o fanylion ichi am asesu eich gofynion a chynnig addasiadau rhesymol lle maent yn bosibl. Mae'n bosibl ichi roi'r wybodaeth ar ein [Templed Dogfen Hygyrchedd].

Mae hefyd yn bwysig deall yr agweddau hygyrchedd ar deithio o Gymru i Fenis ac aros yno.

Os byddwn yn rhoi grant ichi, byddwn yn gweithio'n agos gyda chi i ddeall eich gofynion hygyrchedd. Byddwn yn gwneud unrhyw addasiadau sydd eu hangen a chynnig cefnogaeth gan gynnwys talu costau ychwanegol rhesymol ichi allu cymryd rhan yn llawn. Byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i gynnwys eich anghenion hygyrchedd ond, mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth gyfyngu ar ein gallu.

# Sut i ymgeisio

Ymgeisiwch drwy ein porth ar-lein.

Os nad ydych wedi gwneud hyn o'r blaen, rhaid ichi gofrestru i fynd at y porth.

Os oes angen cymorth arnoch i'w wneud, cysylltwch â ni: grantiau@celf.cymru

1. Llenwch ffurflen gais Rhaglen Goruchwylwyr + ar y porth ar-lein.

2. Uwchlwytho eich CV a ddylai gynnwys y canlynol:
   - Addysg a chymwysterau.
   - Hanes cyflogaeth.
   - Profiad o oruchwylio/blaen tŷ.
   - Curadu arddangosfeydd neu brosiectau.
   - Sgiliau ieithyddol (gan gynnwys y Gymraeg).
   - Eich gwefan/sianeli cyfryngau cymdeithasol am eich gwaith creadigol, os oes gennych nhw.
   - Profiad perthnasol arall.
   - Manylion cyswllt canolwr (i'w defnyddio os byddwch ar y rhestr fer).

   Dylai eich CV fod yn uchafswm o 2 ochr A4.

Rhaid i geisiadau gynnwys popeth ac ni fydd cyfle ichi ychwanegu ato wedyn.

Nid oes angen cyllideb ar gyfer y cais hwn.

3. Ar ôl inni gael eich cais, byddwn yn cydnabod hynny.

4. Os yw'ch cais yn gymwys, byddwn yn ei asesu.

5. Os bydd eich cais yn cyrraedd y rhestr fer, byddwn yn anfon manylion atoch o'r cyfweliad ar-lein.

6. Oherwydd nifer y ceisiadau, ni fydd modd inni gynnig adborth unigol.

## Dyddiadau pwysig

- Dyddiad cau ymgeisio: 10 Rhagfyr 2025 hanner dydd.
- Bydd penderfyniadau ar y rhestr fer yn cael eu cyfathrebu 9 Ionawr 2026.
- Cyweliadau: 19 a 20 Ionawr 2026 (arlein).
- Bydd penderfyniadau terfynol yn cael eu cyfathrebu erbyn 26 Ionawr 2026.
- Bydd cytundeb grant i gynnwys eich amserlen dalu a'ch dyddiadau ar gyfer Goruchwylwyr + yn Fenis yn cael ei anfon atoch erbyn 13 Chwefror 2026.
- Sesiwn hyfforddi: Mawrth 2026.

## Cysylltu â ni

Oes problem dechnegol gyda'r ffurflen gais neu'ch cyfrif porth? Cysylltwch â'n tîm Grantiau a Gwybodaeth grantiau@celf.cymru neu ffoniwch **03301 242733**.

Oes gennych gwestiynau penodol am eich cais a'r rhaglen? Cysylltwch â'r rhaglen: cymruynfenis@celf.cymru

Cymru yn Fenis
Wales in Venice
Il Galles a Venezia